# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-20-09)

**Dyddiad: 23 Medi 2009**
**Amser: 9.30am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC314 - Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Rheoli) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 16 Gorffennaf 2009. Fe’i gosodwyd ar 20 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 10 Awst 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i dai amlfeddiannaeth (fel y'u diffinnir yn adrannau 254 i 259 o Ddeddf Tai 2004) yng Nghymru.

SLC315 - Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 15 Gorffennaf 2009. Fe’i gosodwyd ar 20 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 10 Awst 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008 (O.S. 2008 Rhif 1275), drwy roi "protection” yn lle "protected” ym mharagraff 8 yn y fersiwn Saesneg.

Mae’r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall a gofnodwyd mewn Adroddiad Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) 2009.

SLC316 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 20 Gorffennaf 2009. Fe’i gosodwyd ar 21 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 21 Gorffennaf 2009

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004”). Effaith y diwygiad yw ychwanegu amgylchiadau pellach pryd y caniateir archebu’r cyffur Zanamivir (Ralenza) ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol. Yr amgylchiadau pellach yw clefyd pandemig sy'n gadael iechyd pobl yn agored i risg difrifol neu risg difrifol posibl a bod y cyffuriau’n cael eu cyflenwi'n unol â phrotocol sy'n ymwneud â'r clefyd hwnnw.

Gwnaed y Rheoliadau ar 20 Gorffennaf 2009 a daethant i rym ar 21 Gorffennaf 2009. Mewn llythyr dyddiedig 21 Gorffennaf 2009, hysbysodd y Cwnsler Cyffredinol y Llywydd y bu’n angenrheidiol torri’r rheol 21 diwrnod i sicrhau bod meddygon teulu yn gallu rhoi presgripsiynau ar gyfer cyffuriau gwrthfeirysol megis Ralenza yn unol â rhwymedigaethau eu contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol fel nad ydynt felly’n amharu ar allu unigolion sydd â symptomau i gael triniaeth drwy fferyllydd cymunedol ar bresgripsiwn.

SLC317 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 1 Awst 2009. Fe’i gosodwyd ar 4 Awst 2009. Yn dod i rym ar 31 Awst 2009

Mae Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008 (O.S. 2008/3170) (Cy.283) ("Rheoliadau 2008”) yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn cysylltiad â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009. Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro mân wallau technegol a gwallau teipograffyddol yn Rheoliadau 2008.

SLC318 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 31 Gorffennaf 2009. Fe’i gosodwyd ar 4 Awst 2009. Yn dod i rym ar 28 Awst 2009

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth sy’n caniatáu i drethdalwr, sy’n ddarostyngedig i ardrethi annomestig mewn perthynas â’r flwyddyn ariannol llywodraeth leol 2009/10, ohirio talu 3% o’u rhwymedigaeth ar gyfer 2009-2010 tan y blynyddoedd ariannol sy’n cychwyn ar 1 Ebrill 2010 ac 1 Ebrill 2011. Gwneir hyn drwy ddiwygio’r rheoliadau canlynol:-

Y Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989; a

Y Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Canolog) 1989.

Gwneir newidiadau ôl-ddilynol i’r Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 a’r Rheoliadau Ardrethu Annomestig

(Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993.

SLC319 - Rheoliadau Grantiau Dysgu’r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 1 Awst 2009. Fe’i gosodwyd ar 4 Awst 2009. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu’r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008 ("y Prif Reoliadau”). Mae’r Prif Reoliadau yn darparu ar gyfer cymorth i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau dynodedig ym maes addysg uwch yng Nghanolfan Bologna, Coleg Ewrop neu'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd.

SLC320 - Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 1 Awst 2009. Fe’i gosodwyd ar 5 Awst 2009". "Yn dod i rym ar 1 Medi 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer talu grant ar sail prawf moddion i fyfyrwyr mewn addysg ôl-orfodol sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach dynodedig yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009 i’w helpu i dalu costau astudio. Bydd y grant ar gael i fyfyrwyr cymwys p'un ai yng Nghymru neu yn rhywle arall yn y DU y byddant yn dewis astudio.

SLC322 - Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio Rhif 2) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 3 Awst 2009. Fe’i gosodwyd ar 6 Awst 2009". "Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001 ac yn dirymu diwygiad a wnaed i Reoliadau 2001 gan Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2009. Effaith y diwygiad a’r dirymiad yw bod swyddogaethau Pwyllgor Ymchwilio sy’n perthyn i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cael eu gwahardd os yw Gweinidogion Cymru neu’r Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno ystyried achos gyda’r bwriad o arfer pwerau o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002, neu os yw’r Bwrdd Gwahardd Annibynnol wedi cynnwys neu’n dymuno ystyried cynnwys yr athro neu’r athrawes yn y rhestrau o’r gwaharddedig a gedwir o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.

SLC323 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 9 Awst 2009. Fe’i gosodwyd ar 11 Awst 2009". "Yn dod i rym ar 1 Medi 2009

Mae’r Gorchymyn hwn yn ychwanegu Rhan 40 newydd at Atodlen 2 o’r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Mae’n rhoi caniatâd cynllunio i osod mathau penodol o gyfarpar microgynhyrchu ar dai annedd neu fflatiau neu o fewn cwrtil tai annedd neu fflatiau lle na fyddai hyn yn cael effaith y gellir ei phrofi ac eithrio ar yr eiddo dan sylw.

SLC324 - Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 13 Awst 2009. Fe’i gosodwyd ar 14 Awst 2009". "Yn dod i rym ar 7 Medi 2009

Mae’r Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) 2009 ("Rheoliadau 2009”) yn darparu ar gyfer rhoi ar waith tair Gyfarwyddeb Comisiwn newydd ac sy'n cydgrynhoi rheolau presennol y Gymuned Ewropeaidd sy'n llywodraethu meini prawf purdeb ar gyfer lliwiau, melysyddion ac ychwanegion amrywiol eraill a ddefnyddir mewn bwydydd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2009 i gywiro gwall teipograffyddol yn y testun Cymraeg a fu’n destun adroddiad i’r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn flaenorol.

SLC325 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 2 Medi 2009. Fe’i gosodwyd ar 3 Medi 2009". "Yn dod i rym ar 28 Medi 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau”) i ddiweddaru'r cyfeiriad at y cyhoeddiad sy'n disgrifio benthyciadau ychwanegol a delir o dan Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Yr Alban) 2007. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu diystyru wrth gyfrifo incwm benthyciad i fyfyriwr pan fo hawl person i gael taliad am dreuliau teithio GIG ac i beidio â thalu taliadau penodol y GIG yn cael ei chadarnhau o dan y prif Reoliadau.

Effaith y gwelliant yw y dylai unrhyw fenthyciad ychwanegol gan fyfyrwyr o’r Alban sy’n astudio yng Nghymru ac sy’n hawlio cymorth i dalu costau iechyd o dan gynllun incwm isel y GIG gael ei ddiystyru o’u hincwm benthyciad wrth gyfrifo eu hadnoddau. Mae benthyciad ychwanegol ar gael i fyfyrwyr o’r Alban sy’n seiliedig ar amodau cymhwyso, ac sy’n cynnwys lefel incwm y teulu. Caiff myfyrwyr o Loegr, Cymru a Gogledd Iwerddon sy’n cael benthyciadau myfyrwyr cymharol debyg pan fyddant yn gwneud cais i gynllun incwm isel y GIG eu diystyru mewn modd tebyg.

SLC326 - Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 6 Medi 2009. Fe’i gosodwyd ar 7 Medi 2009". "Yn dod i rym ar 28 Medi 2009

Mae’r Rheoliadau hyn, sy’n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/2716) (Cy. 245). Maent yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru godi ffioedd am gymryd, neu oruchwylio’r broses o gymryd, samplau swyddogol y mae’n ofynnol eu cymryd o dan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 646/2007.

SLC327 - Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 7 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 9 Medi 2009. Yn dod i rym ar 1 Hydref 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 504/2008 ("Rheoliad y Comisiwn") mewn perthynas â Chymru, ac yn dirymu a disodli Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer adnabod ceffylau ac equidae eraill drwy gyfrwng ddogfen adnabod a microsglodyn electronig a osodir yn yr anifail. Yn Rhan 2 o'r Rheoliadau crëir tramgwyddau o dorri darpariaethau Rheoliad y Comisiwn, a darperir ar gyfer rhoi cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol i geffylau a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC309 - Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Gorffennaf 2009. Fe'u gosodwyd ar 7 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2009

Yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau, mae "significant risk" wedi'i gyfieithu fel "risg o bwys" yn ogystal ag fel "risg sylweddol".

Yn Atodlen 2, paragraff 2(ff) o'r fersiwn Gymraeg, mae'r cyfieithiad yn cyfeirio at "risg o bwys", ond yn Atolden 2, paragraff 2(i), mae'r cyfieithiad yn cyfeirio at "risg sylweddol".

Mae yma anghysondeb yn yr iaith a'r ystyr.

SLC310 - Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ailstrwythuro Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 8 Gorffennaf 2009. Fe'i gosodwyd ar 9 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 1 Hydref 2009

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn gwneud diwygiadau i amrywiol ddarpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth benodedig. Daw'r diwygiadau o ganlyniad i sefydlu strwythur newydd i ddarparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru o 1 Hydref 2009 ymlaen.

Mae'r Gorchymyn:-

(i) Yn dirymu Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl am Wasanaethau Fferyllol - Trefniant Arbennig) 1991; ac

(ii) Yn diwygio cyfeiriadau yn yr Offerynnau Statudol canlynol, gan mwyaf, drwy roi "Bwrdd Iechyd Lleol" yn lle Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol"; i wneud darpariaeth i Fyrddau Iechyd Lleol gael eu hychwanegu at y rhestr o gyrff y mae'r naw Offeryn Statudol yn berthnasol iddynt a, phan fo'n briodol, bydd yn sicrhau y bydd y saith Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu cyflawni swyddogaethau penodol a oedd gynt yn cael eu cyflawni gan Ymddiriedolaethau GIG:

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Clefydau Gwenerol) 1974;

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989;

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997;

Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2001;

Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002;

Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002;

Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003;

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007; a

Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd ) (Cymru) 2008.

SLC311 - Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 9 Gorffennaf 2009. Fe'i gosodwyd ar 10 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 1 Awst 2009

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu gydag effaith o 1 Awst 2009 y gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i redeg Coleg Garddwriaeth Cymru. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo ei eiddo, ei hawliau a'i rwymedigaethau i Goleg Glannau Dyfrdwy a Phrifysgol Glyndŵr ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau penodol eraill a fydd yn cael eu trosglwyddo i Goleg Glannau Dyfrdwy a Phrifysgol Glyndŵr i'w dal at ddibenion addysgol. Mae'r Gorchymyn yn sicrhau hawliau cyflogeion y gorfforaeth drwy gymhwyso adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

SLC312 - The National Health Service (General Medical Services Contracts) (Prescription of Drugs Etc) (Wales) (Amendment) Regulations

2009

(Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig)

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 9 Gorffennaf 2009. Fe'i gosodwyd ar 10 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 10 Gorffennaf 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004"). Effaith y diwygio yw ychwanegu at yr amgylchiadau lle y gellir archebu'r cyffur Oseltamivir (Tamiflu) ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol. Yr amgylchiadau ychwanegol yw afiechyd pandemig sy'n peri risg difrifol, neu risg difrifol posibl i iechyd pobl ac mae cyflenwi'r cyffur yn unol â'r protocol yn ymwneud â'r afiechyd hwnnw.

Gwnaed y Rheoliadau ar 9 Gorffennaf 2009 a daethant i rym ar 10 Gorffennaf 2009. Trwy lythyr dyddiedig 10 Gorffennaf 2009 hysbysodd y Cwnsler Cyffredinol y Llywydd y bu'n angenrheidiol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn sicrhau y gallai Meddygon Teulu roi presgripsiynau am gyffuriau gwrth-feirysol fel Tamiflu yn unol â chyfrifoldebau cytundebol y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a hynny heb effeithio ar fynediad at driniaeth i unigolion sydd â symtomau o'r afiechyd trwy fferyllfa gymunedol ar bresgripsiwn.

SLC313 - Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 15 Gorffennaf 2009. Fe'i gosodwyd ar 15 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 16 Gorffennaf 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3165 (Cy.276)) ("y prif Reoliadau") a wrth wneud hynny yn gweithredu Cyfarwyddeb 2009/54/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddatblygu a marchnata dŵr mwynol naturiol.

Mae'r rheoliadau hefyd yn cywiro diffygion a nodwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r prif Reoliadau yn ei adroddiad ar 27 Tachwedd 2007. Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor bryd hynny ar 14 Ionawr 2008 yn datgan: "I can confirm that in this instance the amended Regulations will be brought forward early in the New Year, and almost certainly before the end of January 2008." Mewn gwirionedd, ni chafodd y Rheoliadau eu gwneud tan 15 Gorffennaf 2009.

SLC321 - Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 4 Awst 2009. Fe'i gosodwyd ar 6 Awst 2009". "Yn dod i rym ar 1 Medi 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002 ("Rheoliadau 2002"). Maent yn dwyn o fewn cwmpas Rheoliadau 2002 werthuso perfformiad athrawon ysgol (gan gynnwys athrawon ysgolion meithrin) a gyflogir gan awdurdodau lleol am fwy nag un tymor ysgol ac athrawon a gyflogir gan awdurdodau lleol nad ydynt yn gysylltiedig ag un ysgol yn benodol neu sy'n addysgu y tu allan i sefydliadau ysgol.

Eitem 4: Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)

SLC(3)-20-2009(p1): Mesur Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7287-e.pdf

SLC(3)-20-2009(p2): Memorandwm Esboniadol

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7287-em-e.pdf

SLC(3)-20-2009(p3): Adroddiad y Cynghorydd Cyfreithiol

## Eitem 5: Gohebiaeth y Pwyllgor: ymateb gan Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ i lythyr y Cadeirydd ynghylch y defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol/negyddol yn y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

SLC(3)-20-2009(p4): Llythyr Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ, ynghylch y defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol/negyddol yn y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd

SLC(3)-20-2009(p5): Ymateb Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ, i lythyr y Cadeirydd

## Eitem 6: Mesur Tlodi Plant y DU

## Eitem 6.1: Mesur Tlodi Plant y DU - trafodaeth gyda Dr Brian Gibbons AM, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Michael Lubienski, Cyfreithiwr Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gill Lambert, Rheolwr Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)

Tracey Breheny, Pennaeth yr Uned Tlodi Plant

SLC(3)-20-2009(p6): Mesur Tlodi Plant y DU

**h**

**ttp://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/112/2009112.pdf**

SLC (3)-20-2009 (p7): Nodiadau esboniadol

**h**

**ttp://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/112/en/2009112-en.pdf**

SLC(3)-20-2009(p8): Adroddiad y Cynghorydd Cyfreithiol

SLC(3)-20-2009(p9): Cais gan y Cadeirydd am nodyn briffio gan y Gweinidog

SLC(3)-20-2009(p10): Ymateb y Gweinidog i gais y Cadeirydd am y nodyn briffio

SLC(3)-20-2009 (p15): Llythyr gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2.

### Gwahoddir y Pwyllgor i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi):

Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi.

### Eitem 6.2: Ystyried y dystiolaeth a'r argymhellion cychwynnol ar gyfer adroddiad y Pwyllgor.

### Eitem 7: Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir y DU: ystyried adroddiad y Pwyllgor

SLC (3)-17-2009(p1): Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir y DU:

http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200809/ldbills/001/09001.i-v.html

SLC(3)-20-2009(p11): Adroddiad drafft

SLC(3)-20-2009(p12): Nodyn cyngor cyfreithiol mewn perthynas â'r Parth Cymreig

SLC(3)-20-2009(p14): Ymateb gan y Gweinidog

### Eitem 8: Mesur Cydraddoldeb y DU: ystyried adroddiad y Pwyllgor

SLC (3)-17-2009(p3): Mesur Cydraddoldeb y DU a nodiadau esboniadol:

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/085/volii/2009085ii.pdf

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/085/voli/2009085i.pdf

SLC(3)-20-2009(p13): Adroddiad drafft

### Eitem 9: Unrhyw fater arall

### Eitem 10: Dyddiad y cyfarfod nesaf